Ombwdsmon Ombudsman
Cymru · Wales

# Ymchwiliad i gŵyn
# yn erbyn
# Llywodraeth Cymru

Adroddiad gan yr
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymru
Achos: 202206003

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Crynodeb | 2 |
| Y gŵyn | 4 |
| Ymchwiliad | 4 |
| Y digwyddiadau cefndir | 8 |
| Tystiolaeth Mr A a Mr B | 14 |
| Tystiolaeth Llywodraeth Cymru | 15 |
| Dadansoddiad a Chasgliadau | 17 |
| Argymhellion | 24 |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan a23 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r adroddiad yn ddienw er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai olygu bod modd adnabod unigolion wedi cael eu newid neu eu hepgor. Mae'r adroddiad felly yn cyfeirio at yr achwynwyr fel Mr A a Mr B.

## Crynodeb

Cwynodd Mr A a Mr B fod Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio ei phwerau i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn cymryd camau i ddiwallu'r angen am lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unol â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014. Cwynodd Mr A a Mr B hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi methu â delio yn briodol â chwyn a wnaethant am y mater hwn.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddiwallu anghenion llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae'n ofynnol iddynt nodi ac asesu'r angen yn eu hardal a chyflwyno cynllun i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Felly, mae gan Lywodraeth Cymru rôl arweiniol hollbwysig o ran sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o ran darparu llety.

Canfu'r ymchwiliad fod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyflawni'r rôl hon a bod ei methiant i ymateb i Gynghorau Conwy a Sir Ddinbych wedi cyfyngu ar allu Conwy a Sir Ddinbych i ddiwallu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn wedi achosi rhwystredigaeth a gofid i Mr A a Mr B, y mae eu hanghenion llety yn dal heb eu diwallu. Hefyd, mae'n debygol bod eraill yn y gymuned wedi'u heffeithio, neu y gallent gael eu heffeithio, gan y methiant hwn.

Ni chafodd cwyn Mr A a Mr B ei thrin yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Roedd eu cwyn wedi'i hystyried yn anghywir fel un na ellid ei hystyried o dan y polisi. Roedd yr amser a gymerwyd i roi gwybod iddynt nad oedd eu cwyn yn cael ei hystyried yn ormodol.

Argymhellais y dylai Llywodraeth Cymru ymddiheuro i Mr A a Mr B am y methiannau a nodir yn yr adroddiad hwn a chynnig taliad o £1,000 yr un iddynt i gydnabod yr anghyfiawnder a achoswyd iddynt oherwydd y methiannau hyn. Argymhellais hefyd y dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i awdurdodau lleol o'r gofyniad i barhau i gymryd camau i ddiwallu'r angen mewn Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr cymeradwy tra bod Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr diweddaredig yn cael eu hasesu, i benderfynu a ddylid cymeradwyo'r Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ac i sefydlu cynllun ar gyfer sut y byddant yn adolygu'r broses o Asesu Llety Sipsiwn a Theithwyr a

threfniadau monitro.  O ran ymdrin â chwynion, argymhellais y dylai Llywodraeth Cymru atgoffa staff sy'n delio â chwynion o bwysigrwydd ymateb mewn modd amserol a sicrhau bod yr holl staff sy'n delio â chwynion yn cael hyfforddiant ar ei pholisi cwynion a sut y dylid ei gymhwyso.  Cytunodd Llywodraeth Cymru i gyflawni'r argymhellion hyn.

## Y gŵyn

1. Cwynodd Mr A a Mr B am y ffordd y deliodd Llywodraeth Cymru â chŵyn a wnaed ganddynt ynghylch Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr ("AauLST"). Ystyriodd yr ymchwiliad y canlynol:

   a) A oedd Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio eu pwerau i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("CBSC") a Chyngor Sir Ddinbych ("CSD") yn cymryd camau i ddiwallu'r angen am lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unol â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.

   b) A gafodd eu cwyn ei thrin yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

## Ymchwiliad

2. Cafodd fy Ymchwilydd sylwadau a chopïau o ddogfennau perthnasol gan Lywodraeth Cymru ac ystyriodd y rheini gyda'r dystiolaeth a ddarparodd Mr A a Mr B. Cafwyd tystiolaeth hefyd gan CBSC a CSD.

3. Cafodd Mr A, Mr B a Llywodraeth Cymru gyfle i weld a rhoi sylwadau ar fersiwn drafft yr adroddiad hwn cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol.

## Deddfwriaeth berthnasol

4. Mae Egwyddorion Gweinyddu Da'r Ombwdsmon, a gyhoeddwyd gan fy rhagflaenydd,[1] yn darparu canllawiau i bob corff cyhoeddus yng Nghymru eu dilyn.

- Mae Egwyddor 1 yn ymwneud â "Chael pethau yn iawn" drwy weithredu yn unol â'r gyfraith, gan roi sylw dyledus i hawliau'r rhai dan sylw, a gwneud penderfyniadau rhesymol, ar sail yr holl ystyriaethau perthnasol.

[1] O dan adran 34 o Ddeddf OGCC 2019

- Egwyddor 2 yw “Canolbwyntio ar y cwsmer” drwy ddelio â phobl yn gymwynasgar, yn brydlon ac yn sensitif, gan ystyried eu hamgylchiadau unigol.

- Egwyddor 3 yw “Bod yn agored ac yn atebol” drwy fod yn agored ac yn glir am bolisïau a gweithdrefnau.

Rhaid i Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru roi sylw i’r canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau.

5. Fel Awdurdod Safonau Cwynion Cymru, rwyf hefyd wedi cyhoeddi Egwyddorion ar gyfer Delio â Chwynion yn Effeithiol ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhain yn datgan y dylai prosesau ymdrin â chwynion ganolbwyntio ar yr achwynydd, dylent fod yn deg ac yn wrthrychol (gan sicrhau bod achwynwyr yn cael ymateb cyflawn a phriodol i'w pryderon), ac yn amserol, yn effeithiol ac yn atebol.

6. Mae Deddf Tai 1996 yn dweud bod Sipsiwn neu Deithiwr yn ddigartref os nad oes ganddynt le cyfreithlon lle gallant osod eu cartref symudol a byw ynddo. Ni fyddai gwersylloedd diawdurdod, sydd heb y caniatâd cynllunio defnydd tir cywir, yn cael eu hystyried yn lle cyfreithlon.

7. Mae’n rhaid i bob corff cyhoeddus gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998, sy’n ymgorffori’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (“y Confensiwn”) yng nghyfraith y DU. Mae Erthygl 8 o’r Confensiwn yn rhoi’r hawl i unigolion gael parch at eu bywyd preifat a theuluol.

8. Nid fy swyddogaeth yw gwneud canfyddiadau diffiniol ynghylch a yw corff cyhoeddus wedi torri hawliau dynol unigolyn trwy ei weithredoedd (neu ei ddiffyg gweithredu). Fodd bynnag, wrth ystyried a fu camweinyddu neu fethiant gwasanaeth ar ran corff cyhoeddus, gallaf ystyried a yw cyrff cyhoeddus yn ystyried hawliau dynol pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau pan fo hyn yn ystyriaeth berthnasol. Yn unol â hynny, byddaf yn nodi pan fydd materion hawliau dynol yn cael eu cynnwys mewn achos a byddaf ac yn gwneud sylwadau pan fydd tystiolaeth nad yw corff cyhoeddus wedi rhoi digon o sylw iddynt.

9. Mae Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn grwpiau ethnig ac yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf Cydraddoldeb"). Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi amddiffyniad cyffredinol rhag gwahaniaethu i bobl â nodweddion gwarchodedig, megis eu tarddiad ethnig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, megis Llywodraeth Cymru, roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i feithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Mae rhoi sylw dyledus yn golygu ystyried y 3 gofyniad hyn wrth lunio polisi neu ddarparu gwasanaethau.

10. Nid fy swyddogaeth yw gwneud canfyddiadau pendant ynghylch a oes gwahaniaethu wedi digwydd. Fodd bynnag, gallaf roi sylwadau ar ystyriaeth corff cyhoeddus o'r amddiffyniad y mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei roi.

11. Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf Tai") ddyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio ALST a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Mae Adran 103 o'r Ddeddf Tai yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol arfer ei bwerau i ddiwallu unrhyw angen am lety a nodir yn ei ALST gymeradwy. Mae adran 104 o'r Ddeddf Tai yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i arfer ei bwerau, os ydynt yn fodlon bod awdurdod lleol wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir gan adran 103 o'r Ddeddf Tai. Cychwynnwyd yr agweddau hyn ar y Ddeddf Tai ym mis Chwefror 2015, a rhoddwyd terfyn amser o 26 Chwefror 2016 i awdurdodau lleol gynnal AauLST a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

12. I gynorthwyo awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau o'r enw "Cynnal Asesiadau O Anghenion Llety Sipsiwn A Theithwyr" ym mis Mai 2015. Esboniodd bwysigrwydd cynnal AauLST i fynd i'r afael â'r diffyg dealltwriaeth o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac i sicrhau cyfle cyfartal i Sipsiwn a Theithwyr drwy ganiatáu iddynt gael mynediad i lety sy'n ddiwylliannol briodol. Darparodd fframwaith, yn gosod allan sut i gynnal AauLST, ac atgoffodd awdurdodau lleol o'u dyletswyddau cyfreithiol i ddiwallu unrhyw angen a nodwyd. Mae paragraff 255 yn dweud "bydd angen asesu'r cynnydd ar gwrdd ag anghenion a ddynodwyd yn rheolaidd... rhaid i Awdurdodau Lleol ddangos eu bod yn gwneud popeth rhesymol yn eu gallu i gwrdd ag anghenion. Dywedodd hefyd y dylid diweddaru AauLST o leiaf bob

5 mlynedd oherwydd ei bod yn anodd asesu'n gywir y newidiadau yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr dros gyfnod o fwy na 5 mlynedd.

13. Yn dilyn cychwyn y Ddeddf Tai, datblygodd Llywodraeth Cymru dempled ar gyfer Adolygu Cydymffurfiaeth Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i fonitro'r cynnydd a wneir gan awdurdodau lleol. Anfonwyd hwn at awdurdodau lleol, ac roedd yn ofynnol iddynt gwblhau'r templed a'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Roedd y templed yn dweud y "bydd gwybodaeth a ddarperir ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru i ganfod a fyddai'n briodol i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pŵer o dan adran 104 o Ddeddf 2014 i orfodi awdurdod lleol i ddarparu safleoedd."

14. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun o'r enw "Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr" ym mis Mehefin 2018. Ynddo, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i "graffu ar Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau eu bod yn gadarn" ac i "fonitro awdurdodau lleol yn flynyddol i sicrhau bod digon o fannau yn cael eu darparu". Nododd y cynllun fod Sipsiwn a Theithwyr yn un o'r grwpiau mwyaf ymylol mewn cymdeithas ac yn aml yn profi anghydraddoldeb. Dywedodd fod "llawer o'r materion a brofir gan Gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn deillio o, neu'n cael eu gwaethygu gan, diffyg mynediad at lety priodol". Dywedodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo polisïau yn ymwneud â llety i Sipsiwn a Theithwyr.

15. Roedd "Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr" yn dilyn ymlaen o "Teithio at Ddyfodol Gwell", a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2011, a oedd yn dweud fod gan Sipsiwn a Theithwyr ymdeimlad cryf o deulu a bod bondiau teuluol yn gryf iawn. Dywedodd hefyd fod llawer o Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn grwpiau teulu ehangach i ddarparu gofal a chymorth i'w gilydd. Nododd yr heriau yr oedd Sipsiwn a Theithwyr, sy'n byw ar safleoedd anawdurdodedig, yn eu hwynebu o ran cael mynediad at wasanaethau hanfodol a'r effaith andwyol a gafodd hyn ar iechyd a lles.

16. Ym mis Awst 2022, cyhoeddodd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd adroddiad o'r enw "Darparu safleoedd ar gyfer Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr". Dywedodd, er bod gan Gymru fframwaith clir ar waith i sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle'r oedd eu hangen, dim ond ychydig iawn o gynnydd a wnaed.

Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y fframwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol er mwyn cyflawni newid ystyrlon gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.

17. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y weithdrefn ar gyfer gwneud cwyn. Mewn adran o'r enw "Pryd i ddefnyddio'r weithdrefn hon" mae'r canllawiau'n nodi bod Llywodraeth Cymru yn gallu ystyried cwynion am faterion gan gynnwys "Camweinyddu yn ein gweithredoedd gweinyddol, boed hynny drwy weinyddiaeth wael neu drwy gymhwyso rheolau'n anghywir… drwy fethu â darparu gwasanaeth yr oeddem yn bwriadu ei ddarparu neu y mae'n rhaid i ni ei ddarparu yn ôl y gyfraith".

18. Mae'r canllawiau hefyd yn rhannu'r broses gwyno yn ddau gam:

- Cam 1 yw datrysiad anffurfiol. Mae cwynion o dan y cam hwn fel arfer yn cael eu hystyried a'u datrys yn gyflym ac, os yn bosibl, o fewn 10 diwrnod gwaith o gael eu codi. Os yw achwynydd yn anfodlon ar ôl cael ymateb yng ngham 1, gall ofyn i'w gŵyn gael ei hadolygu o dan gam 2 o'r broses.

- Cam 2 yw datrysiad trwy ymchwiliad ffurfiol. O dan y cam hwn, mae cwynion yn cael eu cydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith. Mae achwynwyr yn cael cyngor am y broses a sut mae eu cwyn yn cael ei thrin. Bydd swyddog arweiniol yn cael ei benodi i ystyried y gŵyn a bydd ymateb llawn yn cael ei roi o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn. Os nad yw hyn yn bosibl mae'r canllawiau'n nodi efallai y bydd angen ymestyn y llinell amser hon ond y bydd yr achwynydd yn cael y newyddion diweddaraf.

## Y digwyddiadau cefndir

19. O'r dystiolaeth a ddarparwyd, mae'n ymddangos bod yr adolygiad cyntaf o gydymffurfiaeth awdurdodau lleol â chanlyniadau eu AauLST wedi'i gynnal yn hydref 2017, ond ni ddefnyddiwyd templed ffurfiol. Gofynnwyd i awdurdodau lleol ymateb, gan ddefnyddio'r templed ar gyfer adolygu cydymffurfiaeth, i'r ail adolygiad blynyddol erbyn 10 Mai 2018 a'r trydydd erbyn 6 Ionawr 2020. Gohiriwyd y pedwerydd adolygiad blynyddol, a oedd i fod i gychwyn ym mis Rhagfyr 2020, tan flwyddyn ariannol 2021/22. O'r

dystiolaeth a ddarparwyd nid yw'n ymddangos bod hyn, nac unrhyw adolygiadau blynyddol pellach, wedi'u cynnal.

20. Unwaith y bydd ALST wedi'i gymeradwyo mae'r awdurdod lleol yn derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhoi gwybod ei bod yn ofynnol iddo gyhoeddi'r ALST cymeradwy a dechrau ar y gwaith o ddiwallu unrhyw angen nas diwallwyd a nodwyd. Mae'r llythyr hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r cynnydd y mae awdurdodau lleol yn ei wneud tuag at ddiwallu'r angen am lety a nodwyd yn yr ALST. Gan fod y ddau awdurdod lleol wedi nodi angen nas diwallwyd, roedd adran 103 o'r Ddeddf Tai yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd camau i ddiwallu'r angen hwnnw.

**Cyflwyniadau ALST Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i Lywodraeth Cymru**

21. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru ALST CBSC ar 28 Mawrth **2017**. Roedd cyfweliadau â theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd yn hwyr yn 2015 yn rhan o'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer yr ALST a ganfu fod angen cyfredol am 5 o leiniau preswyl (tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartref symudol am gyfnod amhenodol). Ar adeg cwblhau'r ALST, roedd gwaith bron wedi'i gwblhau ar safle preswyl Sipsiwn a Theithwyr (safle parhaol a ddynodwyd i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol) yn ardal CBSC. Byddai hyn yn darparu 4 llain, gan adael angen nas diwallwyd o 1 llain. Nodwyd yn yr ALST bod yr angen hwn yn deillio o aelodau o deuluoedd yr aelwydydd a oedd ar fin symud i'r safle preswyl newydd a oedd yn dymuno ymuno â nhw. Aeth yr ALST ymlaen i ddatgan y byddai'n heriol darparu llain arall ar y safle hwn oherwydd y diffyg tir a oedd ar gael ac oherwydd na fyddai, efallai, yn cynrychioli gwerth am arian, ac y byddai'n ceisio cyngor pellach gan Lywodraeth Cymru. Canfu'r ALST hefyd angen nas diwallwyd am 7 o leiniau tramwy (tir ar safle cartref symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am gyfnod dros dro) i'w defnyddio gan Sipsiwn a Theithwyr sy'n teithio drwy'r ardal.

22. Ar 18 Medi anfonodd Rheolwr Gwasanaethau Tai CBSC e-bost at Dîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Dywedasant fod yr awdurdod lleol yn canolbwyntio ar ddiwallu'r angen am leiniau tramwy a'u bod yn rhagweld cyflwyno cais cynllunio yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20. O ran yr angen

am 1 llain breswyl arall, dywedasant nad oedd wedi gwneud cynnydd â chynllun i ddiwallu'r angen a gofynnodd am farn gan Lywodraeth Cymru ar sut i symud ymlaen.  Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r e-bost hwn.

23. Ym mis Mai **2018** cyflwynodd CBSC ei ail adolygiad blynyddol o gydymffurfiaeth i Lywodraeth Cymru.  Roedd hwn yn nodi bod CBSC wedi darparu safle i ddiwallu'r angen preswyl a nodwyd yn y ALST.  Dyma'r safle a oedd bron wedi'i gwblhau ar adeg cynnal yr ALST.  Dywedodd hefyd y byddai grŵp llywio yn cael ei sefydlu i ddarparu safle tramwy.  Ar 29 Tachwedd ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at CBSC i gadarnhau ei bod wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod yr angen a nodwyd yn yr ALST yn cael ei ddiwallu.  Roedd hyn er bod gan CBSC ond gynlluniau i ddarparu 4 o leiniau preswyl, pan oedd angen wedi'i asesu am 5.

24. Dywedodd trydydd adolygiad blynyddol o gydymffurfiaeth a gyflwynwyd gan CBSC ym mis Ionawr **2019** eto fod yr angen preswyl a nodwyd yn yr ALST wedi'i ddiwallu drwy ddarparu safle preswyl gyda 4 llain.  Dywedodd fod lleoliad sy'n cael ei ffafrio ar gyfer safle tramwy wedi'i nodi ac y byddai'n destun ymgynghoriad trwy broses y Cynllun Datblygu Lleol.  Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r cyflwyniad hwn.

25. Ar 23 Chwefror **2022** cyflwynodd CBSC ALST diweddaredig i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.  Cydnabu Llywodraeth Cymru hyn ar 10 Mawrth ac nid yw wedi'i gymeradwyo eto.  Canfu'r ALST hwn fod angen nas diwallwyd o hyd, sef ar gyfer 1 llain breswyl, a dim angen am leiniau tramwy.  Mewn ymateb i'r ymchwiliad hwn, dywedodd CBSC na allant wneud cynnydd ag unrhyw waith ar ddiwallu angen nas diwallwyd hyd nes y bydd yr ALST diweddaredig yn cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

**Cyflwyniadau ALST Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych i Lywodraeth Cymru**

26. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru hefyd ALST CSD ar 28 Mawrth **2017**.  Roedd yr ALST hwn hefyd yn defnyddio cyfweliadau a gynhaliwyd gyda theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ar ddiwedd 2015 fel rhan o'i sylfaen dystiolaeth.  Canfu'r ALST fod angen 6 llain breswyl a

5 llain tramwy. Dywedodd yr ALST y dylid darparu'r lleiniau preswyl fel blaenoriaeth ac y byddai ymchwiliad am dir addas yn dechrau.

27. Ar 5 Medi anfonodd Rheolwr Prosiect o CSD e-bost at y Tîm Cydraddoldeb yn Llywodraeth Cymru. Dywedasant fod tîm prosiect wedi'i sefydlu i ddiwallu'r angen a nodwyd yn yr ALST a'u bod yn rhagweld cyflwyno ceisiadau am gyllid i adeiladu safleoedd ym mlwyddyn ariannol 2019/20.

28. Roedd yr ail adolygiad blynyddol o gydymffurfiaeth yn manylu ar y gwaith a oedd wedi'i wneud i nodi tir ar gyfer lleiniau preswyl a thramwy, a dywedodd fod cymeradwyaeth wedi'i rhoi i fwrw ymlaen i'r cam cais cynllunio. Ym mis Tachwedd **2018**, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod CSD wedi rhoi digon o dystiolaeth bod cynnydd yn cael ei wneud i ddiwallu'r angen a nodwyd yn yr ALST.

29. Dywedodd y trydydd adolygiad blynyddol o gydymffurfiaeth a gyflwynwyd gan CSD fod cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer safle preswyl ym mis Hydref **2019**. O ran safle tramwy, dywedodd nad oedd unrhyw opsiwn ymarferol ar hyn o bryd ac y byddai cynnydd yn cael ei wneud gyda safleoedd posibl drwy broses y Cynllun Datblygu Lleol. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r trydydd adolygiad blynyddol o gydymffurfiaeth ar 29 Ionawr **2021**. Dywedodd ei fod yn bryderus nad oedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos sut y byddai CSD yn diwallu'r angen a nodwyd yn yr ALST ac efallai nad oedd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Tai. Roedd hyn oherwydd bod Pwyllgor Cynllunio CSD wedi gwrthod y cais i ddarparu safle preswyl ac nid oedd CSD ers hynny wedi darparu diweddariad a oedd yn gosod allan sut yr oedd yn bwriadu diwallu'r angen a nodwyd yn yr ALST.

30. Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â chynrychiolwyr o CSD ar 27 Ebrill. Nodwyd bod yr angen hwnnw o ALST 2017 yn parhau i fod heb ei fodloni. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu bod yn pryderu am y diffyg cynnydd o ran diwallu anghenion, ac na fyddai'r camau gweithredu a gynigir gan CSD yn mynd â nhw'n nes at ddiwallu'r angen. Daeth y cyfarfod i ben gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn dweud y byddant yn ystyried y defnydd posib o adran 104 o'r Ddeddf Tai i gyfarwyddo CSD i ddiwallu'r angen. Anfonodd swyddog o CSD e-bost at Lywodraeth Cymru ar 26 Mai gyda sylwadau a diwygiadau i gofnodion y cyfarfod a chais i gyfarfod eto

ymhen ychydig wythnosau.  Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r e-bost hwn ac ni dderbyniodd CSD unrhyw ohebiaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch y camau a oedd yn cael eu cymryd i ddiwallu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr.

31. Ar 24 Rhagfyr cyflwynodd CSD ALST diweddaredig i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.  Canfu’r ALST hwn fod angen nas diwallwyd am 12 o leiniau preswyl a dim angen am leiniau tramwy.  Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud sylwadau ar yr ALST hwn eto.

32. Dywedodd CSD ei fod wedi'i siomi gan y diffyg adborth gan Lywodraeth Cymru ar ei ALST diweddaredig, yn enwedig gan ei bod wedi cadw at ddyddiad cau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno.  Ar ôl cyflwyno'r ALST diweddaredig, cysylltodd teulu nad oedd wedi cymryd rhan yn yr ALST â Chyngor Sir Ddinbych yn gofyn am gael eu cynnwys. Penderfynodd CSD y dylid cynnwys y teulu hwn yn yr ALST, ac y dylid ail-gyfweld cyfranogwyr blaenorol i sicrhau bod yr ALST mor gyfredol â phosibl.  Dywedodd CSD fod y diffyg adborth gan Lywodraeth Cymru yn golygu nad oedd modd mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd pan gynhaliwyd y diweddariad hwn ar ôl i'r teulu ychwanegol ddod ymlaen.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

33. Ar 5 Hydref **2023,** rhoddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a swyddogion Llywodraeth Cymru dystiolaeth i’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (“y Pwyllgor”).  Roeddent yn cydnabod y bu’r cynnydd wrth adolygu AauLST gan Lywodraeth Cymru yn araf, i ddechrau oherwydd y pandemig COVID-19 ac yn fwy diweddar oherwydd cyfyngiadau difrifol gyda staffio.  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod staff ychwanegol wedi'u recriwtio i'r tîm sy’n gyfrifol am adolygu AauLST a'i fod yn bwriadu adolygu'r holl AauLST a gyflwynwyd erbyn diwedd y flwyddyn.  Roedd disgwyl i’r AauLST diweddaredig gael eu cyflwyno erbyn 24 Chwefror 2022 ac, ar adeg cyfarfod y pwyllgor, roedd 21 o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi cyflwyno AauLST diweddaredig i Lywodraeth Cymru.  Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn mynegi pryder y Pwyllgor nad oedd 1 awdurdod lleol wedi cyflwyno ALST eto a bod y broses adolygu ar gyfer yr AauLST eraill yn dal yn parhau.

34. Roedd y Pwyllgor eisoes wedi lansio ymchwiliad i'r ddarpariaeth o safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Cyhoeddwyd adroddiad yn deillio o'r ymchwiliad hwnnw ym mis Awst 2022. O ran AauLST, canfuwyd bod gwerth ac effeithiolrwydd AauLST yn amrywio ledled Cymru ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ai'r broses ALST bresennol yw'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Argymhellodd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, a sut y bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i liniaru'r heriau y gall hyn eu cyflwyno. Darparodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ymateb ysgrifenedig i'r ymchwiliad i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2022. Yn yr ymateb hwnnw, dywedodd y byddai effeithiolrwydd y broses ALST yn cael ei adolygu ar ôl i'r rownd ALST bresennol ddod i ben, ac y byddai'r AauLST a oedd wedi'u cyflwyno bryd hynny yn cael eu defnyddio i ddatblygu darlun cenedlaethol o'r angen am, a'r ddarpariaeth o, lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

**Cwyn i Lywodraeth Cymru**

35. Cyflwynodd Mr A gŵyn drwy borth cwynion Llywodraeth Cymru ar 9 Medi 2022, a gafodd ei chydnabod ar 15 Medi. Yn y gŵyn honno, dywedodd Mr A ei fod yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chymryd camau i sicrhau bod CBSC yn diwallu'r angen am lety Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd yn ei ALST yn 2017. Ehangwyd y gŵyn honno wedyn i gynnwys cwyn Mr B am CSD. Mae Mr A yn byw ar safle preswyl yn CBSC ac mae Mr B yn byw ar safle anawdurdodedig (tir a feddiannir heb y caniatâd cynllunio cywir ar gyfer defnydd tir) yn CSD.

36. Ar 20 Medi derbyniodd Mr A e-bost oddi wrth un o swyddogion Llywodraeth Cymru ("y Swyddog") a oedd wedi cael y dasg o roi ymateb iddo. Pwnc yr e-bost oedd "cwyn". Gofynnwyd i Mr A gyfeirio pob gohebiaeth bellach at y Swyddog. Ar 6 Hydref derbyniodd Mr A e-bost pellach gan y Swyddog. "Cwyn" oedd pwnc yr e-bost, a dywedwyd wrth Mr A eu bod yn delio â'i gŵyn. Dywedodd y Swyddog eu bod yn gobeithio gallu ymateb yn fuan ond ni roddwyd amserlen ar gyfer pryd y gallai Mr A ddisgwyl ymateb o sylwedd.

37. Ar 24 Hydref, aeth Mr A at asiantaeth eirioli ("yr Asiantaeth Eirioli") am gymorth gan nad oedd wedi cael ymateb i'w gŵyn eto. Anfonodd yr Asiantaeth Eirioli e-bost at Dîm Cynghori ar Gwynion Llywodraeth Cymru ar 25 Hydref, gan gopïo Mr A. Mae'r Tîm Cynghori ar Gwynion yn rhan o Lywodraeth Cymru ac maent yn delio â chwynion a wneir am Lywodraeth Cymru. Gofynnodd yr Asiantaeth Eirioli ar ba gam oedd cwyn Mr A, a phryd y gallai ddisgwyl ymateb. Ar 27 Hydref atebodd y Tîm Cynghori ar Gwynion yn dweud fod y Swyddog wedi cysylltu â Mr A, a bod Mr A yn ymwybodol o'r sefyllfa bresennol.

38. Ar 31 Hydref ymatebodd yr Asiantaeth Eirioli i'r e-bost hwn, gan gopïo Mr A. Roeddent yn cydnabod bod y Swyddog wedi bod mewn cysylltiad â Mr A ond dywedasant nad oedd Mr A yn gwybod o hyd ar ba gam yr oedd ei gŵyn na phryd y byddai'n cael ymateb. Ar ôl cael dim ymateb i'r e-bost hwn, anfonodd yr Asiantaeth Eirioli e-bost arall at y Tîm Cynghori ar Gwynion ar 17 Tachwedd.

39. Ymatebodd y Tîm Cynghori ar Gwynion ar 22 Tachwedd. Dywedasant nad oeddent yn gallu rhannu gwybodaeth â'r Asiantaeth Eirioli heb ganiatâd ysgrifenedig Mr A. Darparodd Mr A hynny drwy e-bost yr un diwrnod. Anfonodd y Tîm Cynghori ar Gwynion e-bost at yr Asiantaeth Eirioli a Mr A ar 29 Tachwedd. Dywedodd nad oeddent yn gallu ystyried cwyn Mr A gan fod y polisi cwynion ond yn caniatáu iddynt ystyried cwynion am gamweinyddu, nid cwynion am bolisi'r Llywodraeth neu newid deddfwriaeth. Atebodd Mr A yr e-bost hwn yr un diwrnod gan ddweud nad oedd yn ceisio newid polisi neu ddeddfwriaeth ond ei fod yn cwyno nad oedd pwerau presennol yn cael eu defnyddio. Wedi hynny, gwnaeth Mr A gŵyn i'r swyddfa hon ym mis Rhagfyr.

40. Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â Mr A a Mr B ym mis Rhagfyr. Pwrpas y cyfarfod oedd egluro blaenoriaethau a'r ffordd ymlaen. Ni wnaed unrhyw nodiadau o'r cyfarfod hwn, er, ar 29 Rhagfyr, anfonodd y Swyddog e-bost at Mr A a diolchodd iddo am roi o'i amser i gyfarfod. Dywedodd wrth Mr A fod Llywodraeth Cymru yn gobeithio edrych ar bob agwedd ar y broblem yn fuan iawn. Atebodd Mr A yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw gan godi nifer o faterion a gofyn a fyddai'n cael ymateb ffurfiol i'w gŵyn. Ymatebodd y Swyddog i'r e-bost hwnnw drannoeth a

dywedodd y byddai ymateb ffurfiol yn dilyn, ond ni roddwyd dyddiad ar gyfer hyn.

### Tystiolaeth Mr A a Mr B

41. Dywedodd Mr A ei fod yn teimlo bod y ffordd y deliodd Llywodraeth Cymru â'i gŵyn yn hynod o rwystredig, ac y bu arno angen cymorth gan asiantaeth eirioli i'w gynorthwyo yn ei ymwneud â Llywodraeth Cymru. Holodd Mr A a oedd ei ethnigrwydd wedi dylanwadu ar y ffordd y deliwyd â'i gŵyn, gan ddweud bod y methiant i ymdrin â'i gŵyn yn briodol yn rhan o ddiffyg gweithredu ehangach gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

42. Dywedodd Mr A fod y llain breswyl y nodwyd bod ei hangen yn ALST 2017 CBSC ar gyfer ei ferch, a oedd yn ddigartref ar hyn o bryd ynghyd â'i phlant ei hun, ac nad oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran darparu'r llain hon. Dywedodd Mr A fod y sefyllfa hon yn ofidus iawn iddo gan fod gan ei wyrion broblemau iechyd difrifol a oedd yn cael eu gwaethygu drwy fod yn ddigartref. Dywedodd Mr A fod methiant Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ei phwerau i sicrhau bod CBSC yn diwallu angen a nodwyd yn golygu nad oeddent yn gallu byw gyda'i gilydd ar yr un safle â theulu estynedig a darparu cymorth i'w gilydd.

43. Gan nad oes unrhyw leiniau awdurdodedig yn ardal CSD, dywedodd Mr B ei fod ef a'i deulu yn ddigartref ac yn byw ar safleoedd anawdurdodedig a dros dro. Nid oes gan y safleoedd hyn gyflenwad dŵr na thrydan a chan eu bod yn anawdurdodedig a heb y caniatâd cynllunio defnydd tir cywir, roeddent mewn ofn parhaus o gael eu troi allan. Roeddent yn gweld y sefyllfa'n arbennig o anodd gan fod y teulu'n cynnwys plant a phobl ag anghenion meddygol.

44. Dywedodd Mr A a Mr B, pan ddaeth y Ddeddf Tai i rym, eu bod yn obeithiol y byddai mwy o lety i Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol. Dywedasant eu bod yn gweld y diffyg gweithredu gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod safleoedd yn cael eu darparu yn siomedig iawn.

## Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

45. Dywedodd Llywodraeth Cymru na chafodd cwyn Mr A ei hystyried o dan ei pholisi cwynion. Roedd yn credu bod y gŵyn yn ymwneud â pholisi neu ddeddfwriaeth y llywodraeth, na all ei hystyried o dan ei pholisi cwynion. Dywedasant fod trefniadau wedi'u gwneud i gwrdd â Mr A a Mr B ym mis Rhagfyr 2022 i ddeall natur eu cwyn a'r rhesymau drosti. Dywedasant fod Mr A, yn dilyn y cyfarfod hwn, yn fodlon i'r materion a godwyd gael eu trin o safbwynt polisi yn hytrach nag fel cwyn. Gan na chymerwyd cofnodion o'r cyfarfod hwn, nid yw hyn wedi'i ddogfennu.

46. Dywedodd Llywodraeth Cymru i ddechrau nad oedd yn gallu dod o hyd i unrhyw ohebiaeth rhyngddynt a'r 2 awdurdod lleol ynghylch yr AauLST mabwysiedig. Yn dilyn ymholiadau pellach gan y swyddfa hon, rhannodd Llywodraeth Cymru rai dogfennau perthnasol. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y tîm sy'n gyfrifol am adolygu AauLST cymeradwy wedi dioddef colled sylweddol o staff, a gafodd effaith negyddol ar gof corfforaethol a gwydnwch y tîm.

47. Mewn ymateb i fersiwn ddrafft o'r adroddiad hwn, derbyniodd Llywodraeth Cymru y bu methiannau wrth fonitro'r cynnydd yr oedd awdurdodau lleol yn ei wneud i ddiwallu'r angen a nodwyd yn eu AauLST. Nododd ei hymrwymiad i gefnogi teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ac i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y maent yn eu profi. Roedd yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau sylweddol. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i awdurdodau lleol gymryd camau i ddiwallu'r angen a nodwyd, ac nid oedd y diffyg monitro gan Lywodraeth Cymru yn dirymu'r ddyletswydd hon. Dywedodd nad oedd dim tystiolaeth y byddai monitro mwy trylwyr gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at ganlyniad gwahanol i'r achwynwyr.

48. Dywedodd Llywodraeth Cymru mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y ddyletswydd i ddiwallu anghenion a nodwyd mewn AauLST cymeradwy. Dywedodd fod penderfyniadau ynghylch sut i ddiwallu'r angen hwnnw yn faterion i awdurdodau lleol yn unig. Dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddai unrhyw fethiant i ymateb i ohebiaeth gan awdurdodau lleol ynghylch hyn wedi atal yr awdurdodau rhag cymryd camau i ddiwallu'r angen a nodwyd. Mynegodd Llywodraeth Cymru bryder y gall fy nghanfyddiadau arwain

awdurdodau lleol i ystyried nad oes ganddynt unrhyw gyfrifoldeb i ddiwallu eu dyletswyddau o dan Adran 103 yn yr amser rhwng cyflwyno a chymeradwyo ALST diweddaredig.

49. Cydnabu Llywodraeth Cymru y bu oedi wrth asesu’r AauLST diweddaredig ond dywedodd nad oedd unrhyw gysylltiad achosol rhwng ei fethiannau fel y nodir yn yr adroddiad hwn, a methiant CBSC a CSD i gydymffurfio â’u dyletswyddau cyfreithiol i ddiwallu anghenion tai Mr A a Mr B. Roedd hyn oherwydd bod CBSC a CSD wedi mabwysiadu’r AauLST a oedd ar waith a bod yr AauLST hynny yn parhau'n ddilys nes i ALST diweddaredig gael ei gymeradwyo. Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd, o ganlyniad, yn ystyried bod yr oedi cyn cymeradwyo’r AauLST diweddaredig wedi achosi anghyfiawnder i’r achwynwyr.

50. O ran CSD, cydnabu Llywodraeth Cymru nad oedd cyngor wedi'i roi i'r Gweinidog ynghylch defnyddio pwerau adran 104. Dywedodd hyd yn oed pe bai cyngor wedi’i roi ei bod yn annhebygol iawn y byddai wedi bod yn briodol defnyddio’r pwerau hynny. Fel y cyfryw, ym marn Llywodraeth Cymru, ni wnaeth y methiant hwn achosi anghyfiawnder i Mr B.

## Dadansoddiad a Chasgliadau

51. Nid wyf wedi cynnwys pob manylyn yr ymchwiliwyd iddo yn yr adroddiad hwn, ond rwy’n fodlon na chafodd unrhyw beth arwyddocaol ei esgeuluso.

**Pryder Mr A a Mr B fod Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio eu pwerau i sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn cymryd camau i ddiwallu’r angen am lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unol â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.**

52. Mae’n bwysig dweud ar y cychwyn, mai cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol (CBSC a CSD), nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, yw’r ddyletswydd o dan y Ddeddf Tai i ddiwallu’r anghenion a nodwyd mewn AauLST. Fodd bynnag, mae'r fframwaith deddfwriaethol yn golygu bod gan Weinidogion Cymru rôl hollbwysig wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r AauLST hynny ac wrth fonitro cydymffurfiaeth awdurdodau lleol ag anghenion a aseswyd yn flaenorol. Tynnodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai sylw hefyd at bwysigrwydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i fynd

i’r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Fel y cyfryw, mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig o ran arweinyddiaeth a throsolwg. Hefyd, yn unol â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru roi sylw i Ganllawiau fy Swyddfa ar Egwyddorion Gweinyddu Da wrth gyflawni ei swyddogaethau.

53. Ni ddigwyddodd pedwerydd adolygiad blynyddol Llywodraeth Cymru o gydymffurfiaeth, a oedd i fod i gael ei gynnal ym mlwyddyn ariannol 2021/22. Cynhaliwyd y monitro diwethaf a gofnodwyd o gydymffurfiaeth awdurdodau lleol â chanlyniadau eu AauLST ym mis Ionawr 2020. Mae hyn yn groes i ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn “Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr” y byddai monitro blynyddol yn digwydd. Er fy mod yn derbyn bod pandemig COVID-19 a phrinder staff wedi achosi oedi, gan fod 4 blynedd wedi mynd heibio, mae’r oedi hwn yn ormodol ac, yn fy marn i, yn gyfystyr â chamweinyddu.

54. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i geisiadau gan CBSC am gymorth i ddiwallu’r angen am lain breswyl. Roedd CBSC yn glir yn ei ALST cymeradwy ac mewn e-bost i Lywodraeth Cymru ei fod yn wynebu anawsterau wrth fynd i’r afael â’i angen nas diwallwyd am lain breswyl. Dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cydnabod yr ohebiaeth hon ac ymateb iddi. Mater i Lywodraeth Cymru oedd penderfynu a oedd yn dymuno cynorthwyo’r Cyngor mewn unrhyw ffordd. Roedd y methiant i ymateb i'r ohebiaeth hon i roi ateb i CBSC mewn perthynas â’i gais yn fethiant gweinyddol sy'n gyfystyr â chamweinyddu.

55. Nid wyf ychwaith wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i drydydd datganiad o gydymffurfiaeth flynyddol CBSC. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd i nodi nad oedd y 4 llain breswyl a ddarparwyd gan CBSC yn ddigon i ddiwallu'r angen am 5 llain a nodwyd yn ei ALST. Yn dilyn hynny, cyflwynodd CBSC ALST diweddaredig bron i 5 mlynedd ar ôl cymeradwyo'r ALST cyntaf, a oedd yn dal i ddangos angen nas diwallwyd am 1 llain breswyl. Roedd y methiant i nodi’r diffyg hwn ac ymateb i'r Cyngor unwaith eto yn fethiant sy'n gyfystyr â chamweinyddu.

56. Mae CBSC wedi dweud nad yw’n gallu cymryd camau ar hyn o bryd i fynd i’r afael â’r angen nas diwallwyd a nodwyd yn yr ALST diweddaredig gan nad yw wedi’i gymeradwyo eto gan Lywodraeth Cymru er iddo gael ei

gyflwyno dwy flynedd yn ôl ym mis Chwefror 2022. Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai CBSC fod yn parhau i gymryd camau i ddiwallu'r angen am lety a nodwyd yn ALST 2017 tra'i fod yn aros am gymeradwyaeth i'r ALST diweddaredig. Cafodd CBSC wybod yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru fod ei gynlluniau i ddarparu safle preswyl gyda 4 llain yn ddigon o dystiolaeth bod yr angen a nodwyd yn ALST 2017 yn cael ei ddiwallu. Gan na chafwyd unrhyw gyfarwyddyd arall gan Lywodraeth Cymru, nid oedd yn afresymol i'r awdurdod lleol ddod i'r casgliad ei fod wedi arfer ei bwerau cyn belled ag yr oedd angen, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

57. Felly, er mai CBSC oedd yn gyfrifol am y ddyletswydd i ddiwallu anghenion nas diwallwyd yn ei ALST cymeradwy, achosodd y methiannau gweinyddol ar ran Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â gohebiaeth CBSC ac ymateb iddi, oedi a chyfyngder. O ystyried na ymatebodd yn glir i CBSC ac esbonio ei safbwynt, achosodd y camweinyddu ar ran Llywodraeth Cymru anghyfiawnder anuniongyrchol i Mr A.

58. Dywedodd Mr A ei fod yn siomedig nad oedd yn ymddangos bod unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran diwallu'r angen nas diwallwyd a nodwyd yn ALST 2017. Dywedodd Mr A fod angen y llain ar gyfer ei ferch a'i phlant dibynnol ac yn ei ALST, cydnabu CBSC fod yr angen yn deillio o aelodau o deulu'r bobl a oedd yn byw ar ei safle preswyl awdurdodedig. Dywedodd Mr A fod ei ferch yn ddigartref, ynghyd â'i wyrion, gan nad oedd unrhyw leiniau ar gael yn ardal CBSC. Er nad oes unrhyw sicrwydd y byddai'r llain hon wedi'i dyrannu i aelod o deulu Mr A, roedd y ffaith na chafodd erioed ei darparu yn golygu nad allant wneud cais amdano, ac nid oedd Mr A yn gallu cael y cyfle i fyw gydag aelodau o'i deulu ehangach. Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gydnabod yn flaenorol yn "Teithio at Ddyfodol Gwell" fel rhan bwysig o ddiwylliant Sipsiwn a Theithwyr.

59. Yn dilyn y cyfarfod rhwng Llywodraeth Cymru a CSD ym mis Ebrill 2021, ni wnaeth Llywodraeth Cymru unrhyw gysylltiad pellach â CSD ynghylch y defnydd posibl o'i bwerau o dan adran 104 o'r Ddeddf Tai i gyfarwyddo CSD i gynnig lleiniau. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw dystiolaeth bod y defnydd o'r pwerau hyn wedi'i ystyried ymhellach ar ôl y cyfarfod. Mae hyn er gwaethaf pryderon gan swyddogion Llywodraeth Cymru nad oedd gan Gyngor Sir Ddinbych gynllun i ddiwallu'r angen a nodwyd, yn groes i adran 103 o'r Ddeddf Tai. Er mai mater i

Lywodraeth Cymru unwaith eto oedd penderfynu a ddylai arfer ei phwerau, roedd ei diffyg gweithredu ar ôl y cyfarfod hwnnw i fynd ar drywydd y mater a chadarnhau ei safbwynt i CSD yn fethiant gweinyddol sy'n gyfystyr â chamweinyddu.

60. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi nodi bod CSD yn methu, o bosibl, â chyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Tai, ond ni chymerwyd unrhyw gamau pellach i fynd i'r afael â hyn. Mewn ymateb i ddrafft o'r adroddiad hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn annhebygol y byddai wedi bod yn briodol defnyddio pwerau adran 104. Efallai fod hynny fod yn wir neu beidio. Fodd bynnag, mynegodd i CSD ei fod yn ystyried defnyddio pŵer a104 ac anfonodd CSD e-bost at Lywodraeth Cymru, gyda sylwadau ar gofnodion ei gyfarfod pan drafodwyd hyn, gyda chais i gyfarfod eto, ond ni chafodd CSD unrhyw ymateb gan Lywodraeth Cymru. Er mai CSD oedd yn gyfrifol am y ddyletswydd gyfreithiol i ddiwallu angen nas diwallwyd yn yr ALST cymeradwy, nid oedd yn afresymol bod CSD yn aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru. Roedd y diffyg ymateb neu gadarnhad o fwriadau Llywodraeth Cymru yn amlwg yn effeithio ar CSD a chyfrannodd at oedi a diffyg gweithredu. Roedd y methiant hwn yn gyfystyr â chamweinyddu.

61. Nid yw CSD wedi darparu unrhyw lety i Sipsiwn a Theithwyr am bron i 7 mlynedd ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo ALST CSD, mae Mr B a'i deulu yn ddigartref o hyd. Er na allwn wybod yn sicr a fyddai CSD wedi diwallu'r angen a nodwyd yn y ALST neu a fyddai Mr B a'i deulu wedi cael lleiniau ar safle, pe bai un wedi'i adeiladu, efallai y byddai'r cyfyngder presennol wedi'i osgoi pe na bai'r methiannau ar ran Llywodraeth Cymru wedi digwydd. Er mai CSD sy'n gyfrifol am ddiwallu'r anghenion llety a aseswyd, rwyf o'r farn bod methiannau Llywodraeth Cymru wedi effeithio'n anuniongyrchol ar safbwynt Mr B, gan achosi anghyfiawnder a gofid iddo.

62. Dewisodd CSD adolygu ei ALST diweddaredig ar ôl iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Pe bai Llywodraeth Cymru wedi gwneud sylwadau ar yr ALST cyn y pwynt hwn, gellid bod wedi mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn y diweddariad hwn. Os bydd Llywodraeth Cymru yn nodi unrhyw broblemau gyda'r ALST newydd hwn, yna mae'n bosibl y bydd yn rhaid i CSD gomisiynu diweddariad ychwanegol i'r ALST

diweddaraf.  Bydd hyn yn achosi oedi pellach i unrhyw waith y gallai CSD ei wneud i fynd i'r afael â'r angen a nodwyd.  Mae hyn yn anghyfiawnder i Mr B a'i deulu y mae eu hanghenion llety yn parhau heb eu diwallu.

63. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol wedi dweud bod AauLST a gyflwynwyd wrthi yn cael eu hadolygu.  Er bod hyn yn cael ei groesawu, bydd unrhyw oedi yn atal ymhellach unrhyw gamau y gallai'r awdurdodau lleol eu cymryd i ddiwallu'r angen a nodwyd, gan nad yw dyletswydd yr awdurdodau lleol, i ddiwallu'r anghenion a aseswyd o dan adran 103 o'r Ddeddf Tai, yn dod i rym nes bod ALST wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.  Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y dylai awdurdodau lleol, pan fyddant yn aros i ALST diweddaredig gael ei gymeradwyo, barhau i ymgymryd â'r gwaith i ddiwallu'r angen a nodwyd yn ei ALST cymeradwy presennol yn unol â'u dyletswyddau cyfreithiol.

64. Yn achos CBSC a CSD, byddai hyn yn golygu cymryd camau i ddiwallu angen nas diwallwyd yn seiliedig ar gyfweliadau gyda theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd dros 8 mlynedd yn ôl.  Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal AauLST yn dweud ei bod yn anodd asesu'n gywir yr angen am lety Sipsiwn a Theithwyr dros gyfnod o fwy na 5 mlynedd.  Fel y cyfryw, mae'n bosibl na fydd y ALST presennol yn adlewyrchu'n gywir yr angen presennol am lety Sipsiwn a Theithwyr.  Yn achos CSD, mae'r angen am leiniau preswyl yn ei ALST diweddaredig wedi cynyddu'n sylweddol ers cymeradwyo ALST 2017.  Pe bai awdurdodau lleol yn parhau i gymryd camau i ddiwallu'r angen mewn AauLST cymeradwy, ni fyddai hyn yn mynd i'r afael ag unrhyw angen newydd a oedd wedi digwydd ers cymeradwyo AauLST 2017.

65. Os mai barn Llywodraeth Cymru yw y dylai awdurdodau lleol barhau i gymryd camau i ddiwallu'r angen a nodwyd mewn AauLST blaenorol wrth aros i AauLST diweddaredig gael eu hasesu, dylid mynegi hyn yn glir i'r awdurdodau lleol.  Mae'r ymchwiliad hwn wedi canfod nad yw awdurdodau lleol o bosibl yn deall y sefyllfa hon.  Nid yw ychwaith wedi'i gynnwys yn y canllawiau presennol ar gynnal AauLST a gyhoeddwyd yn 2015, sydd ond yn datgan y dylid adolygu AauLST o leiaf bob pum mlynedd.

66. Mae'r oedi a'r diffyg gweithredu gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r ddau awdurdod lleol wedi arwain at y diffyg cynnydd ac wedi cyfyngu ar eu

gallu i wneud cynnydd ar yr angen dybryd am safleoedd ychwanegol. Yn achos CSD nid oes dim safleoedd newydd wedi'u darparu ac nid oedd y safle a ddarparwyd gan CBSC yn ddigon i ddiwallu'r angen a nodwyd yn ei ALST. Mae’r angen i Lywodraeth Cymru weithio ag awdurdodau lleol i gyflawni newid ystyrlon ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru wedi’i amlygu gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

67. Mewn ymateb i’r ymchwiliad hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru nad yw’n credu bod perthynas achosol rhwng y methiannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn a methiannau awdurdodau lleol i ddiwallu’r angen a nodwyd yn eu AauLST. Er bod gofyn cyfreithiol i awdurdodau lleol gymryd camau i ddiwallu angen a nodwyd, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn gweinyddu ei swyddogaeth yn y broses gymeradwyo ALST yn briodol a’i bod yn cyfathrebu’n glir ac yn brydlon ag awdurdodau lleol – mae hyn yn hanfodol er mwyn osgoi sefyllfa o ailadrodd y methiannau yn yr achosion hyn.

68. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, yn hytrach na bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn glir i CBCB a CSD yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a weithredwyd ganddo, cyfrannodd ei fethiannau at yr oedi a'r diffyg gweithredu ar ran y ddau awdurdod lleol. Os yw’n disgwyl i awdurdodau lleol weithredu AauLST a gymeradwywyd yn flaenorol (waeth pa mor bell yn ôl y cawsant eu cymeradwyo) wrth i AauLST newydd yn cael eu hystyried, mae angen iddo sicrhau ei fod yn cyfleu hyn ac yn gwneud hyn yn glir i awdurdodau lleol yn ystod ei ymgysylltiad â nhw.

69. Mae’r diffyg safleoedd sydd ar gael yn peri rhwystredigaeth fawr i Mr A a Mr B. Mae wedi arwain at gyfnod hir o ddigartrefedd i Mr B a’i deulu ac mae wedi golygu na allai Mr A gynnig cymorth i’w ferch a’i wyrion. Er bod y cwynion yr wyf wedi’u hystyried wedi’u gwneud gan 2 unigolyn, mae eraill yn debygol o fod wedi’u heffeithio, neu o bosibl wedi’u heffeithio, mewn ffordd debyg.

70. Mae'r methiannau sydd wedi’u nodi yn yr adroddiad hwn yn sylweddol ac yn barhaus. Mae’n ymddangos na wnaed unrhyw waith o ran monitro ALST cymeradwy ers mis Ionawr 2020 ac nid yw AauLST diweddaredig wedi’u hasesu eto. Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, mae hyn, yn anuniongyrchol, yn achosi anghyfiawnder i Mr A a Mr B gan nad yw eu

hanghenion tai yn cael eu diwallu o hyd.  Fy marn hefyd yw bod y methiannau a nodir yn yr adroddiad hwn yn debygol o fod yn rhai systemig, gan fynd y tu hwnt i'r materion a nodwyd gyda monitro'r 2 awdurdod lleol y sonnir amdanynt yn yr adroddiad hwn.  Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol wedi cydnabod mai araf fu'r cynnydd ar adolygu AauLST. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai hefyd wedi codi pryderon am y broses ALST.  Mae'r methiannau hefyd yn ymwneud â gweithredu deddfwriaeth newydd, gan fod cwyn Mr A a Mr B yn ymwneud â monitro'r AauLST cyntaf a gyflwynwyd ar ôl i'r Ddeddf Tai ddod i rym.  Mae Mr A a Mr B wedi mynegi eu siom ynglŷn â'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth hon wedi'i gweithredu, a allai fod wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar fywydau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru yn eu barn nhw.  Felly, am y rhesymau hyn, rwyf o'r farn bod yr adroddiad hwn o ddiddordeb ehangach i'r cyhoedd.

71.    Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n cynnwys rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal.  Nid fy lle i yw gwneud penderfyniad pendant ynghylch a yw corff wedi cydymffurfio â thelerau'r Ddeddf Cydraddoldeb, ond gallaf ystyried a yw sefydliad wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'w rwymedigaethau.  Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr anghydraddoldeb a brofir yn aml gan Sipsiwn a Theithwyr.  Mae'r methiant, i fonitro'r cynnydd a wneir gan awdurdodau lleol o ran diwallu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr, yn awgrymu efallai nad yw wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r angen i leihau'r anfanteision a wynebir gan Sipsiwn a Theithwyr mewn perthynas â llety.

72.    Rwyf o'r farn hefyd fod amgylchiadau'r gŵyn hon wedi ymwneud ag Erthygl 8 o'r Confensiwn.  Mae hyn oherwydd bod y diffyg gweithredu gan Lywodraeth Cymru i fonitro'r cynnydd a wneir gan awdurdodau lleol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn eu AauLST wedi cyfrannu at sefyllfa lle gallai hawliau Mr A a Mr B i gael parch at eu bywyd teuluol fod wedi'u peryglu.

73.    Mae Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio ei phwerau i sicrhau bod y 2 awdurdod lleol yn cymryd camau i ddiwallu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr yn unol â gofynion y Ddeddf Tai.  Roedd hyn yn golygu ei bod yn bosibl nad yw Mr A wedi gallu byw gyda'i deulu ehangach a rhoi cymorth iddynt.  Mae hyn yn anghyfiawnder iddo.   O ganlyniad i ddiffyg unrhyw leiniau preswyl awdurdodedig yn yr ail awdurdod lleol, mae

Mr B a'i deulu wedi bod yn ddigartref ers nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn achosi straen mawr ac yn cyfyngu ar eu gallu i gael mynediad at wasanaethau hanfodol. Mae hyn yn anghyfiawnder iddo. Felly, rwy'n **cadarnhau**'r rhan hon o gŵyn Mr A a Mr B.

**Deliwyd â'u cwyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.**

74. Cymerodd Lywodraeth Cymru dros 10 wythnos i ddweud wrth Mr A nad oedd ei ymchwiliad yn dod o fewn cwmpas ei pholisi cwynion. Pe bai Llywodraeth Cymru o'r farn nad oedd ymchwiliad Mr A yn dod o fewn cwmpas ei pholisi cwynion, dylid bod wedi dweud wrtho yn llawer cynt.

75. Roedd Mr A a Mr B wedi cwyno bod Llywodraeth Cymru wedi methu â monitro CBSC a CSD i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ddiwallu'r angen a nodwyd am lety i Sipsiwn a Theithwyr. Roedd Mr A a Mr B yn gwneud cwyn am y camau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai'n eu cymryd, a dylid bod wedi ystyried eu cwyn o dan y polisi cwynion. Roedd Llywodraeth Cymru yn anghywir pan awgrymodd fod y gŵyn yn ymwneud â pholisi neu ddeddfwriaeth y Llywodraeth gan ei bod yn amlwg yn ymwneud â diffyg gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru o dan ddeddfwriaeth a oedd eisoes yn bodoli ac felly, daw yn gadarn o fewn polisi cwynion Llywodraeth Cymru.

76. Gofynnodd Mr A a oedd ei ethnigrwydd wedi dylanwadu ar y ffordd y deliwyd â'i gŵyn. Cysylltodd Mr A y ffordd y deliwyd â'i gŵyn ag agenda bolisi ehangach Llywodraeth Cymru ar lety i Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r adroddiad hwn wedi nodi methiannau sylweddol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau i ddiwallu'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth y deliwyd â chwyn Mr A yn wahanol am ei fod yn Sipsi, ond mae Mr A yn parhau i amgyffred y gallai hyn fod wedi arwain at ei drin yn llai ffafriol.

77. Roedd y dull o ymdrin yn wael yn dystiolaeth o gamweinyddu pellach a achosodd anghyfiawnder i Mr A a Mr B. Roedd yr agwedd a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd yn groes i Egwyddorion Ymdrin â Chwynion yn Effeithiol ein Hawdurdod Safonau Cwynion.

78. Roedd hyn yn peri cryn rwystredigaeth i Mr A, a ddefnyddiodd asiantaeth eirioli i'w gynorthwyo wrth iddo ymwneud â Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn anghyfiawnder i Mr A a Mr B ac felly **rwy'n cadarnhau'r** rhan hon o'u cwyn.

## Argymhellion

79. Rwy'n **argymell** cyn pen **1 mis** o'r adroddiad terfynol:

a) Dylai Llywodraeth Cymru ymddiheuro i Mr A a Mr B am y methiannau a nodir yn yr adroddiad hwn.

b) Dylai Llywodraeth Cymru gynnig taliad o £1,000 yr un i Mr A a Mr B i gydnabod yr anghyfiawnder a achoswyd iddynt o ganlyniad i'r methiannau a nodir yn yr adroddiad hwn.

c) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn rhoi gwybod yn glir i awdurdodau lleol am y gofyniad i barhau i gymryd camau i ddiwallu'r angen a nodwyd mewn AauLST cymeradwy wrth i AauLST diweddaredig gael eu hasesu gan Lywodraeth Cymru.

d) Dylai Llywodraeth Cymru atgoffa staff sy'n ymdrin â chwynion o bwysigrwydd ymateb mewn modd amserol. Dylai hefyd sicrhau bod yr holl staff sy'n ymdrin â chwynion yn cael hyfforddiant ar ei bolisi cwynion a sut y dylid ei gymhwyso.


80. Rwy'n argymell cyn pen **4 mis** o'r adroddiad terfynol:

e) Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu a ddylid cymeradwyo'r AauLST diwygiedig a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol.

81. Rwy'n argymell cyn pen **6 mis** o ddyddiad yr adroddiad terfynol:

f) Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cynllun ar gyfer sut y bydd yn adolygu'r broses ALST a'r trefniadau monitro.

82. Rwy'n falch o allu nodi, wrth wneud sylwadau ar fersiwn ddrafft o'r adroddiad hwn, bod **Llywodraeth Cymru** wedi cytuno i weithredu'r argymhellion hyn.



**Michelle Morris** 22 Mawrth 2024

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
Gwefan: www.ombwdsmon.cymru
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Dilynwch ni ar X: @OmbudsmanWales